# Merched Digon Trafferthus

a chapeli Caerdydd yn ail hanner
y bedwaredd ganrif ar bymtheg

(Darlith nas traddodwyd)

∞

R. Elwyn Hughes

Caerdydd
2011

## Y tri gweinidog a'r forwyn

Digwyddodd yr hyn a groniclir isod yn ardal Cathays o Gaerdydd yn y blynyddoedd 1888 ac 1889. Y prif gymeriadau oedd tri gweinidog ifanc gydag enwad yr Annibynwyr – y tri, fel mae'n digwydd, yn dwyn y cyfenw 'Roberts' - a merch un ar bymtheg oed a oedd yn forwyn yn nhŷ un ohonynt. Y gweinidogion oedd: E. Garmon Roberts, Eglwys Annibynnol Hannah Street (Saesneg), ei frawd Alun Roberts, Eglwys Annibynnol Ebenezer (Cymraeg), ac O.L. Roberts, Eglwys Annibynnol Minny Street (Cymraeg) Digwyddodd y cyfan mewn nifer o dai cymharol newydd a leolwyd mewn tair stryd gyfagos – City Road (Heol y Plwcca - Castle Road bryd hynny), Crwys Road a Senghennydd Road, mewn ardal oedd yn cyflym ddatblygu i gwrdd â'r ymchwydd ym mhoblogaeth Caerdydd.

Sefydlwyd Capel yr Annibynwyr Hannah Street yn ardal y dociau, Caerdydd yn 1868. Capel Saesneg oedd hwn a godwyd i gwrdd ag angen tybiedig y llif o bobl ddi-Gymraeg a oedd yn symud i ardal y dociau bryd hynny. Yn 1886 daeth y Parchedig Edward Garmon Roberts, Cymro Cymraeg 25 oed, i weinidogaethu yno ar ôl cyfnod o chwe mlynedd ym Merriw, Sir Drefaldwyn, ac er bod yr achos yn Hannah Street erbyn hynny yn dechrau gwanhau, derbyniai Mr Roberts gyflog o £156 y flwyddyn – swm nid bychan yn y dyddiau hynny ac yn llawer



mwy na chyflog y rhan fwyaf o weinidogion yr Annibynwyr ar y pryd. (O ran diddordeb, rhyw drigain punt y flwyddyn oedd cyflog gweinidog Eglwys Beulah, Rhiwbeina (Annibynwyr), Caerdydd, yn yr un flwyddyn.) Yn o fuan daeth Garmon Roberts yn rhan o frawdoliaeth weinidogaethol Caerdydd; yn ôl *Y Goleuad* (Rhagfyr 3 1887) bu'n annerch Undeb Ysgolion Caerdydd yn Nhachwedd y flwyddyn honno ar 'Caniadaeth yr Ysgol Sul' – anerchiad 'gwir dda ac amserol' yn ôl y papur.

Cartref Garmon Roberts oedd 'Garmon House/Villa', Crwys Road - cryn bellter oddi wrth leoliad llai ffasiynol Capel Hannah Street yn ardal y dociau; daeth ei chwaer Miss M. E. Roberts i fyw gydag ef yno fel rhyw fath o howsgipar. Ymaelododd Miss Roberts yng nghapel Cymraeg Minny Street yn hytrach nag yng nghapel Saesneg ei brawd. Mae'n demtasiwn tybio fod penderfyniad Garmon Roberts i osod yr enw 'Garmon House' ar dŷ mewn stryd lle yr oedd gan y tai eraill rifau yn unig, yn adlewyrchu natur ei bersonoliaeth. Ond mae eglurhad arall yn bosibl. Tŷ newydd mewn ardal ddatblygol yng Nghaerdydd oedd trigle Garmon Roberts, a'r tŷ, bryd hynny, ynghyd â rhyw ddwsin o dai eraill o'i gwmpas, heb dderbyn rhif. Tebyg mai dyna oedd y rheswm am yr enw 'Garmon House', yn hytrach nag unrhyw duedd at hunan-dyb ar ran y gweinidog ifanc.

Daeth y tai hyn ymhen amser i gydymffurfio â gweddill y tai yn Heol y Crwys drwy dderbyn rhif i ddynodi eu lleoliad yn y stryd, a'r pryd hynny daeth 'Garmon House' yn rhif 127. Dylid cofio hefyd fod 'mentor' ac amddiffynnwr Garmon Roberts (y Parchedig Owen Lewis Roberts, gweinidog Minny Street) hefyd yn byw yn Heol y Crwys, ac yn gyferbyn â Garmon Roberts. Cyfeiriai Owen Roberts bob amser at ei dŷ ef, rhif 72, fel 'Crwys House' neu 'Cartref'. Dyn dylanwadol o gymeriad pwerus oedd Owen Roberts. Tybed na welir yma ddylanwad arall – fod Garmon Roberts yn dilyn Owen Roberts wrth osod enw ar ei dŷ?

Yr oedd brawd hŷn Garmon Roberts - Y Parchedig John Alun Roberts – eisoes yn byw yng Nghaerdydd ac yn weinidog ar

Eglwys Gymraeg Ebenezer, mam-eglwys Annibynia Gymraeg Caerdydd. Tebyg felly i J. Alun Roberts fod yn ffactor pwysig ym mhenderfyniad ei frawd i symud i Gaerdydd. Yn meddu ar feddwl dadansoddol a heriol ni fu Alun Roberts fawr o amser cyn dod yn adnabyddus yng Nghaerdydd oherwydd ei radicaliaeth a'i barodrwydd i herio'r sefydliad ac i ddadlennu twyll a ffuantrwydd pryd bynnag y deuai ar eu traws. Dadleuai dros estyn cyfleusterau dysgu Cymraeg i Saeson Caerdydd ac ar un achlysur cododd wrychyn nifer o'i gyd-ddinasyddion trwy gyhoeddi y byddai'n barod i dorri'r gyfraith a dioddef cyfnod mewn carchar er mwyn dwyn cyfiawnder i unrhyw sefyllfa a dybiai oedd yn un anghyfiawn. Cartref y Parchedig Alun Roberts oedd yn Senghennydd Road (neu, o bosib, yn Senghennydd Place) ychydig i'r de-orllewin i Heol y Crwys.

Ychydig wythnosau yn unig cyn y digwyddiadau a nodir isod bu Alun Roberts mewn ymrafael â'r *Western Mail* oherwydd ei feirniadaeth o'r Anghydffurfwyr hynny a oedd wedi derbyn gwaith yn swyddfeydd y papur Ceidwadol ac Eglwysig hwnnw. Bu nifer o ddarllenwyr yn annog y *Western Mail* i ateb beirniadaeth Roberts ond ymateb y papur oedd bychanu pwysigrwydd sylwadau Alun Roberts, gan ddatgan 'we don't whip small boys like Alun'. Go brin felly fod unrhyw gariad rhwng Anghydffurfwyr Caerdydd a'r *Western Mail* yn yr 1880au.

Gweinidog Capel Minny Street ar y pryd oedd y Parchedig Owen L. Roberts a ddaeth yno yn 1886 o fod yn weinidog Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth. Ei gyflog oedd £100 y flwyddyn. Ei drigle oedd 40 Heol y Crwys ac wedyn, 72 Heol y Crwys ('Crwys House'/'Cartref'), tŷ a ddarparwyd gan un o ddiaconiaid Minny Street (D.J.Davies) er nad yw'n eglur a dalai'r gweinidog rent amdano neu beidio. Roedd Heol y Crwys yn gyfleus o agos i leoliad capel O.L.Roberts ym Minny Street. Hefyd yn byw gydag ef yn 72 Heol y Crwys oedd ei wraig, Mrs Annie Roberts, a'u morwyn, Eliza[beth] Hughes. Roedd Eliza Hughes yn dyst allweddol yn yr achos llys a ddisgrifir isod.



Yng nghyfnod y digwyddiadau a gofnodir yma, capel ardal, yn ei hanfod oedd Minny Street. O'r 250 o enwau a oedd ar gofrestr y capel rhwng 1884 a 1889, roedd ymhell dros eu hanner yn byw o fewn rhyw chwarter milltir i'r capel, ac yn agos i gant yn byw yn y strydoedd yn union o gwmpas y capel ei hunan (megis Woodville Road, 22; Flora Street, 18; Minny street, 13, Fanny Street, 10; Letty Street, 9; Richmond Road, 9; Crwys Road, 7). Roedd y cyfle i drafod materion y capel yn fwy o dipyn felly nag mewn ardaloedd llai 'cymunedol'. Bron na ellir awgrymu fod elfen o 'gymdogaeth' yn perthyn i'r aelodaeth a phawb â chryn wybodaeth am weithrediadau ei gilydd – ffactor o gryn bwys wrth drafod rhai o'r digwyddiadau a ddisgrifir isod.

Rhwydwaith arall oedd eiddo'r Robertsiaid. Roedd y tri gweinidog yn gryn ffrindiau ac yn cwrdd â'i gilydd yn rheolaidd. Gan fod Garmon Roberts ac Owen Roberts (Minny Street) ill dau yn byw yn Heol y Crwys, ac Alun Roberts yn byw yn gymharol agos hefyd, byddai'r tri yn ymweld â'i gilydd yn lled fynych. Roedd Miss M.E.Roberts (chwaer Garmon Roberts), cofier, hefyd yn byw yn 'Garmon House' ond yn aelod ym Minny Street, yn hytrach nag yng nghapel Saesneg ei brawd.

Yn byw gyda Garmon Roberts a'i chwaer oedd Mary Jane Gittins eu morwyn. Fe'i derbyniwyd yn aelod ym Minny Street ar Orffennaf 10fed 1887 – rhyw ddeng mis ar ôl iddi gyrraedd Caerdydd o Drefaldwyn. Pan orfu iddi adael Garmon House o ganlyniad i'r digwyddiadau a ddisgrifir isod, symudodd i wasanaethu am gyfnod yn nhŷ Alun Roberts, brawd Garmon.

.....................................................................

Ar Chwefror 2 1888, mewn tŷ yn Heol y Plwcca [Castle Road = City Road heddiw], ganwyd plentyn anghyfreithlon i Mary Jane Gittins. Y Sul canlynol, diddymwyd aelodaeth Jane Gittins yng Nghapel Minny Street ac fe'i diarddelwyd gan y gweinidog ei hunan, y Parchedig Owen Roberts, – y gosb arferol yn y capeli anghydffurfiol yr adeg honno am ddwyn plentyn anghyfreithlon

i'r byd. Penderfyniad y gweinidog oedd hyn a heb unrhyw ymgynghori rhyngddo ef a'r gynulleidfa. Roedd Miss Gittins yn ddeunaw oed ar y pryd ac adeg y beichiogi bu'n forwyn yn nhŷ ei chyflogwr, y Parchedig Edward Garmon Roberts, 'Garmon House', Crwys Road.

Ddydd Mawrth, Chwefror 7fed 1888 ymddangosodd adroddiad yn y *Western Mail* dan y pennawd 'Grave ministerial scandal at Cardiff'. Swm a sylwedd yr adroddiad oedd cyfeirio at barodrwydd tybiedig (ym marn y *Western Mail,* fodd bynnag) Anghydffurfwyr yn gyffredinol i drafod gyda dirmyg a sgorn unrhyw aelod o'r Eglwys Sefydledig a oedd, dros dro efallai, wedi dod yn destun rhyw sgandal neu'i gilydd. Aeth y papur rhagddo i ddyfalu beth tybed fyddai ymateb y 'Phariseaid' Anghydffurfiol hyn i sgandal a oedd newydd ddod i'r amlwg megis ar eu haelwyd eu hunain – mewn addoldy Anghydffurfiol yn un o ardaloedd mwyaf poblog Caerdydd. A dyfynnu Saesneg gwreiddiol yr erthygl:

> The sinner in this instance is not a poor, unlearned, struggling, working man, who in a moment of temptation has suddenly fallen from virtue's high pedestal. He is a man of education and high moral training, one whose avocation it has been to counsel the young against the wiles and snares of the seducer and to exhort them to keep themselves pure and unsullied from the world. ... All that we can say at present is that the charge launched against him by a young woman who has been in his employ is one of the most scandalous that can be made against any man professing to be a minister of the Gospel ... and it is to be hoped that the rev. gentleman may be enabled to refute the slander and re-instate himself in the good graces of the congregation as well as in the love of the young wife, who at present is well-nigh broken-hearted at the trouble that has fallen upon her.

Y diwrnod canlynol cafwyd erthygl bellach yn y *Western Mail* dan y pennawd 'Who is the gentleman implicated?'; yn ôl yr erthygl, roedd pawb bellach yn gofyn y cwestiwn hwn a nifer wedi cysylltu â swyddfa'r *Western Mail* ei hunan. Mae'r papur



yn gwrthod dadlennu unrhyw fanylion pellach heblaw am y sylw fod y ferch ifanc:

> ... was betrayed at an age which very nearly brought the seducer within the meshes of the Criminal Law Amendment Act ... she appears to have been a well-conducted girl and was a member of one of the Dissenting Churches in the town ...

Y ddau ddyfyniad hyn oedd sylfaen yr achos enllib a ddygwyd yn erbyn y *Western Mail* gan gyfreithwyr Garmon Roberts yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn.

Ar ddydd Mercher, Mawrth 28ain 1888 cyflwynodd Gwarcheidwaid Tloty Caerdydd achos yn erbyn y Parchedig Edward Garmon Roberts, gweinidog Capel yr Annibynwyr [Saesneg] Hannah Street, gan honni mai ef oedd tad plentyn anghyfreithlon Mary Jane Gittins a oedd erbyn hynny yn preswylio yn Nhloty Caerdydd. Pe gellid profi mai Roberts oedd tad y plentyn, wedyn gellid ei orfodi i gyfrannu at ei gynhaliaeth.

Cafwyd adroddiadau llawn o'r gweithgareddau llys yn y *Western Mail* a hefyd yn ei gystadleuydd newyddiadurol *The Cardiff Times and South Wales Daily News*. Cytunai'r ddau bapur fod y llys dan ei sang, a chynrychiolaeth gref o wragedd pwysig Caerdydd yn bresennol. Yn amddiffyn Roberts oedd Mr Ivor Vachell, cyfreithiwr adnabyddus o'r ddinas. Cyrhaeddodd Vachell a Roberts gyda'i gilydd ac yn gynnar. Gwisgai Roberts siwt dywyll a thei wen; 'yn ddeallusol ei olwg, meddai ar dalcen llydan a wyneb sgwar.' Gwisgai Mary Jane Gittins wisg blaen; 'yn ferch bert a chanddi wyneb agored, cariai yn ei breichiau ei phlentyn chwe wythnos oed.'

Ymddengys fod y cryn fanylu ar faterion personol wedi peri cryn embaras i'r ferch ifanc ac, fel petai, wedi ei drysu rywfaint wrth iddi gyflwyno ei thystiolaeth. Ar un adeg sylwodd yr Ynad ar y nifer sylweddol o wragedd oedd yn bresennol a gorchmynodd iddynt adael y llys cyn i'r tystion fynd ati i fanylu ynghylch gweithgareddau rhywiol honedig y gweinidog ifanc.

## Chwedl y *Cardiff Times* 'The women then retired'

Mary Jane Gittins oedd y cyntaf i gyflwyno ei thystiolaeth. Fel hyn yr aeth pethau:

> Pan oeddwn yn un ar bymtheg oed ac yn byw yn Sir Drefaldwyn euthum i weithio i Garmon Roberts a'i chwaer (Miss Roberts) Yr oeddwn ar y pryd yn aelod yn ei gapel ym Merriew. Y diwrnod yr euthum i weithio iddo, ym Medi 1886, cusanodd Mr Roberts fi sawl gwaith pan nad oedd neb arall yn yr ystafell. Symudodd y tri ohonom i Gaerdydd a chawsom bob i ystafell wely ar yr un llawr yn 'Garmon House', Crwys Road. Yn niwedd Tachwedd y flwyddyn honno bu raid i Miss Roberts fynd i ffwrdd am ryw fis. Yn ystod y cyfnod hwnnw byddai Eliza Hughes morwyn Y Parchedig a Mrs O.L.Roberts (gweinidog Minny Street a'i wraig) yn dod i Garmon House i gysgu gyda fi, ond ni ddigwyddodd hynny bob nos.
>
> Cofiaf un noson yn arbennig pan na ddaeth Eliza Hughes yn gwmni i mi. Y noson honno roeddwn wedi bod yng nghapel Mr Owen Roberts, Cathays [Capel Minny Street] – y capel yr arferwn fynd iddo yng Nghaerdydd. Es i ddim adre'n syth ond galw yn gyntaf yn nhŷ Mr Owen Roberts (lle roedd Eliza Hughes yn forwyn). Y noson honno, galwodd Mr Garmon Roberts yno hefyd ar ei ffordd yn ôl o'i wasanaeth yn Hannah Street. Gofynnodd Mr Owen Roberts iddo a oedd ef am i Eliza ddod yn gwmni imi y noson honno. 'Na, dim diolch' atebodd Mr Garmon Roberts, a cherddodd y ddau ohonom adre i Garmon House. Erbyn hynny, roedd Miss Roberts [chwaer Mr Garmon Roberts] wedi bod i ffwrdd am ryw wythnos. Es i'r gwely. Daeth Mr Roberts ataf i yn y gwely. Doeddwn i ddim yn cysgu ar y pryd. Digwyddodd yr un peth fwy nag unwaith. Daeth Eliza i gysgu gyda fi yn fuan wedyn ond nid bob noson. Ar y nosweithiau pan nad oedd Eliza gyda fi, daeth Mr Roberts ataf i'r gwely.
>
> Digwyddodd hyn hyd yn oed ar ôl i Miss Roberts ddod yn ôl – o leiaf unwaith yr wythnos a hyd at ddiwedd Medi y llynedd [1887] pan aeth Mr Roberts o Gaerdydd. Rywbryd yn ystod y gwanwyn y llynedd bwriais ei ben yn erbyn [pren] y gwely i'w wthio ef i ffwrdd a chlywodd ei chwaer swn yr ergyd o'i hystafell wely hi a gwaeddodd ar ei frawd i fynd lawr y grisiau i weld a oedd rhywun yno. Ac mi aeth. Ond wrth gwrs, doedd neb yno.



> Parhaodd i gymryd mantais ohonof – ym mhob un o'r tair ystafell wely, ac yn bennaf yn ystod y dydd pan oedd ei chwaer allan o'r tŷ. Ddiwedd Gorffennaf aethom i gyd ar ein gwyliau – Miss Roberts i Wrecsam a Mr Garmon Roberts a minnau yn yr un cerbyd i Drefaldwyn lle aros'om am bythefnos. Erbyn hynny roeddwn yn feichiog ers tri mis a chyfeiriodd Mr Roberts droeon at fy nghyflwr. Teithi'om gyda'n gilydd yn ôl i Gaerdydd ac yn ystod y daith honno fe ddywedodd Mr Roberts wrthyf ei fod am briodi yn y dyfodol agos ac y byddai'n rhaid imi symud i fyw at ei frawd Mr Alun Roberts. [Priododd Garmon Roberts yn y Trallwng ar 27 Medi 1887] Doeddwn i ddim am fynd ond dywedodd Mr Garmon Roberts na fyddai gen i ddewis. Wedyn, cymerodd fantais ohonof am y tro olaf.
>
> Arhosais yn nhŷ Mr Alun Roberts [brawd Garmon Roberts] am naw wythnos, cyn symud at Mr a Mrs Morris yn Castle Road [= City Road] lle ganwyd fy mhlentyn ar 2il Chwefror. Heblaw am Mr Garmon Roberts, does neb erioed wedi cymryd mantais ohonof ac rwy'n hollol sicr mai ef yw tad fy mhlentyn.

Bu croeshoeli caled ar Jane Gittins gan Mr Vachell. Awgrymwyd ei bod wedi bod ar delerau amheus ag eraill – gydag un o'r bechgyn lleol gartre ym Maldwyn ac wedyn gyda milwyr o'r barics cyfagos yn ardal Cathays. Ond prin fod yr awgrymiadau hyn yn argyhoeddi neb. Diau fod cymuned leol a chlos Minny Street yn barnu y byddai unrhyw ymddygiad llac ar ran Jane Gittins yn wybyddus iddynt ac yn destun siarad yn y gymdogaeth; ond fel arall oedd barn ei chyd-addolwyr amdani a'r pwyslais bob amser ar ei rhinweddau fel aelod ffyddlon ym Minny Street yn hytrach nag ar unrhyw wendidau tybiedig.

Wrth reswm, gwadai Garmon Roberts y cyfan a chafwyd nifer o dystion dylanwadol i gefnogi ei ddatganiadau ac i dystio i gryfder a phurdeb ei gymeriad. Yn allweddol yn hynny o beth oedd tystiolaeth ei frawd, y Parchedig Alun Roberts, ei gyd-weinidog Owen Roberts (Minny Street), gwraig Owen Roberts (Mrs Annie Roberts), ynghyd â'u morwyn Eliza Hughes. Gwadodd Eliza Hughes honiad Jane Gittins mai dim ond Garmon Roberts a hi (Gittins) oedd yn Garmon House ar ambell

noson; un ai yr oedd hi (Eliza Hughes) wedi mynd draw i gysgu yn Garmon House neu yr oedd Gittins wedi dod ati hi yn 72 Crwys Road. Anodd gwybod i ba raddau yr oedd Eliza Hughes dan ddylanwad ei chyflogwyr ond yn sicr 'wnaeth ei thystiolaeth ddim byd i gryfhau honiadau ei chyfeilles Gittins.

Ar derfyn yr achos darllenodd Mr David, y cyfreithiwr oedd yn amddiffyn Jane Gittins, lythyr a sgrifennwyd ganddi at ei chyn-gyflogwr ym Maldwyn ychydig ddiwrnodau ar ôl geni'r plentyn. Yn y llythyr mae'n honni unwaith eto mai Garmon Roberts oedd tad y plentyn a cheir ganddi awgrym ei fod wedi cymryd mantais o ferched eraill yn yr un ffordd.

Ond ofer fu'r cyfan. Roedd hyn yn digwydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn ôl cyfraith gwlad, yn y cyfnod cyn-DNA hwnnw, rhaid oedd cael tystiolaeth ategol (*corroborative evidence*) cyn y gellid priodoli euogrwydd mewn achos o dadogaeth dybiedig. A chan nad oedd y fath dystiolaeth ar gael yn achos Garmon Roberts - gair y naill yn erbyn y llall oedd hi - bu raid i'r ynadon wrthod y cais, er iddynt, yn ddiddorol iawn, bwysleisio nad oedd hyn o angenrheidrwydd yn golygu nad oeddent yn credu fersiwn Gittins. Mewn gwirionedd, nid oedd ganddynt unrhyw ddewis yn y mater ond gollwng Garmon Roberts yn rhydd.

Ond nid dyna oedd diwedd y stori o bell ffordd. Ymhen ychydig ddiwrnodau, ar Ebrill yr ail a'r pedwerydd, ymddangosodd llythyrau yn y *Western Mail* yn anghytuno â dedfryd yr ynadon ac yn awgrymu codi cronfa er cynorthwyo Mary Jane Gittins. Chwedl un o'r llythyrwyr - 'Action' o'r Rhath - *'I, and probably 49 out of every 50 people, believe her testimony...* [whereas] *the man who, according to her sworn statement, is the father, is allowed to return to his previous vocation of preaching the Gospel ...'.* Ar Ebrill 6ed cyhoeddodd y Western Mail y byddai'n fodlon derbyn cyfraniadau at gronfa o'r fath. Cyhoeddwyd rhagor o lythyrau yn cefnogi achos Jane Gittins, y rhan fwyaf ohonynt, ysywaeth, o dan ffugenwau – 'A



reader,' 'Honour', 'An old inhabitant of Alice Street (*'public opinion is certainly far from satisfied with the results of the trial'*), 'A working man', ac eraill.

Wedyn, ar Ebrill 10fed ymddangosodd ond odid y llythyr mwyaf arwyddocaol yn yr holl hanes. Llythyr oedd hwn oddi wrth 'Certain members of Minny-street Welsh Congregational Chapel' yn datgan fod nifer o'r aelodau (tua deg ar hugain, fel mae'n digwydd) wedi casglu'r swm o ddwy bunt a chweugain tuag at gynorthwyo Mary Jane Gittins a'i phlentyn. Cyn ei diarddel gan y gweinidog, y Parchedig Owen Roberts, yn Chwefror 1888 bu Gittins, cofier, yn aelod selog ym Minny Street, yn ffyddlon i'r oedfaon a'r cyrddau nos ac, ym marn yr aelodau, yn ferch addfwyn o gymeriad da.

Dilynwyd y llythyr hwn gan ddau lythyr o gryn bwys ar Ebrill 19. Sgrifennodd R. Enoch o Blaina Villa, Rhath, un o Warcheidwaid Tloty Caerdydd ac yn berson o gryn barch yng Nghaerdydd, i ddweud ei fod wedi cyfweld Jane Gittins chwe gwaith, yn Saesneg yn ogystal ag yn Gymraeg, a'i gasgliad oedd: 'I hereby certify that I believe her statement as much as I do my own existence ... a noble girl has been ruined'. Yn yr un rhifyn o'r *Western Mail,* cyhoeddwyd llythyr oddi wrth y Parchedig O. L. Roberts 'Minister of the Minny-street Welsh Congregational Church' yn beirniadu'r aelodau hynny o'i eglwys a oedd wedi cyfrannu at y gronfa i gynorthwyo Mary Jane Gittins ac yn datgan nad oedd hawl ganddynt i dybio bod Gittins wedi cael ei harwain ar ddisberod gan 'a wolf in sheep's clothing'

Cafwyd nifer o lythyrau yn y *Western Mail* yn beirniadu safbwynt O. L. Roberts; honnodd William Evans o Flora Street, teiliwr 29 oed ac yn aelod ym Minny Street ers tair blynedd, fod y gweinidog wedi mynd yn rhy bell o dipyn y noson y diarddelwyd Jane Gittins, pan gyhoeddodd o'i bulpud fod y Parchedig Garmon Roberts 'yr un mor ddieuog ag ydw i fy hunan'. A'r un mor amhriodol, meddai William Evans, oedd rhybudd y gweinidog i'w gynulleidfa i beidio â chymryd unrhyw

ran bellach yn yr helynt. Roedd gwaith Evans yn beirniadu ei weinidog yn hollol agored yn y wasg yn weithred o gryn ddewrder yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru; mae'n dwyn i gof yr hyn a ddigwyddodd ryw ddeng mlynedd ynghynt pan feirniadwyd Dr Lewis Edwards mewn llythyr agored gan Emrys ap Iwan oherwydd ei gefnogaeth i fudiad yr 'Inglis Cos'.

Cafwyd ymateb 'swyddogol' yr eglwys ar Ebrill 23 pan gyhoeddodd y *Western Mail* lythyr oddi wrth Mr Tom Roberts, ysgrifennydd Minny Street, yn pwysleisio nad oedd Eglwys Minny Street, fel eglwys, erioed wedi cefnogi Mary Jane Gittins yn ei hymgyrch yn erbyn y Parchedig Garmon Roberts, a bod yr Eglwys yn dal yn gefn i'w gweinidog, y Parchedig O.W. Roberts, ac yn cymeradwyo ei weithred yn amddiffyn enw da ac anrhydedd yr eglwys. Felly, roedd'na wahaniaeth barn amlwg ymhlith aelodau'r capel. Mae'n amlwg hefyd, oddi wrth lythyrau eraill, fod Eglwys Hannah Street ei hunan (capel Garmon Roberts) yr un mor rhanedig ynghylch euogrwydd Garmon Roberts ag yr oedd Eglwys Minny Street ynghylch dieuogrwydd Mary Jane Gittins.

Ar Ebrill 21 dan y pennawd 'The minister and his servant girl' cyhoeddodd y *Western Mail* y rhestr gyntaf o gyfranwyr i gronfa 'Mary Jane Gittins and her infant child now inmates of the Cardiff Union Workhouse' Cynhwysai'r rhestr enwau rhyw gant a saith deg o gyfranwyr a'u cyfraniadau'n amrywio o chwe cheiniog oddi wrth 'A friend' i £1-1-0 dan enw Daniel Owen, J.P. o Ash Hall, y Bontfaen. Roedd nifer o'r tanysgrifwyr am aros yn ddienw ond ymhlith y rhai a ddadlennodd eu cefnogaeth i Mary Jane Gittins yn gyhoeddus oedd nifer o Anghydffurfwyr a Radicaliaid adnabyddus megis Rees Enoch, un o warcheidiaid Tloty Caerdydd a'r Cynghorydd Joseph Ramsdale. Cafwyd llythyr gan aelod o Gapel Ebenezer, Caerdydd yn galw ar y capel hwnnw hefyd i ddangos cefnogaeth i Jane Gittins – galwad afrealistig braidd, a gweinidog Ebenezer ar y pryd (Y Parchedig Alun Roberts) yn frawd i Garmon Roberts ei hunan.



Er hynny cynhwysai'r rhestr tanysgrifwyr a gyhoeddwyd yn y rhifyn nesaf o'r *Western Mail* y swm o 2.6d oddi wrth 'Ebenezer Chapel sympathisers'. Ac erbyn Ebrill 25, roedd nifer o gapeli eraill wedi penderfynu cyfrannu at y gronfa – Penuel, Nazareth, Siloam, Carmel, ynghyd ag Ebenezer (Tŷ Ddew i). Hefyd mewn llythyr a gyhoeddwyd ar 25 Ebrill gwadodd Mr Daniel Owen o'r Bont Faen, un o ynadon heddwch y cylch ac yn gyfarwyddwr y *Western Mail,* iddo gefnogi Mary Jane Gittins er mwyn ymosod ar Anghydffurfiaeth Gymreig; fe'i cefnogai, meddai, am y rheswm syml ei fod yn credu pob gair o'i thystiolaeth yn yr achos llys.

Ymdawelodd pethau rhywfaint am rai wythnosau. Yn y cyfamser, erbyn Gorffennaf y flwyddyn honno (1888) roedd Mr Garmon Roberts wedi gadael Eglwys Hannah Street am fod ei gynulleidfa yno yn rhanedig ar y mater a phobl Caerdydd yn dechrau ei anwybyddu wrth gwrdd ag ef yn y stryd.

Y cam nesaf oedd i Garmon Roberts gychwyn achos o enllib yn erbyn y *Western Mail.* Y cyhuddiad oedd fod y papur hwnnw wedi cyhoeddi ym Mawrth 1888 nifer o erthyglau a llythyrau enllibus wrth drafod yr achos tadogaeth yn ei erbyn. Yr amcan, fe ddadleuid, oedd lliwio agwedd y darllenwyr tuag at Garmon Roberts, a'i fod, o ganlyniad, wedi dioddef yng ngolwg y cyhoedd ac wedi gorfod ildio ei swydd yn weinidog yr efengyl yng Nghaerdydd. Hawliwyd iawndal o £5000 am y camwedd honedig hwn. Penderfynwyd cynnal y gwrandawiad yn Adran y *Queen's Bench yn* Llundain ar Hydref 25 1888. Er mai achos gan Garmon Roberts yn erbyn y *Western Mail* oedd hwn ('Roberts v. Daniel Owen and Co',) penderfynwyd fod rhaid ail-adrodd holl hanes yr achos gwreiddiol ac i'r perwyl hwnnw bu raid i Jane Gittins a'r holl dystion fod yn bresennol yn y gweithrediadau llys yn Llundain.

Cafwyd adroddiadau gweddol gyflawn o'r achos yn y *Times* (Hydref 29 1888) ac yn y *Western Mail* a'r *Cardiff Times* hefyd. Anfonodd y *Western Mai* un o'i newyddiadurwyr i Lundain i

gofnodi'r cyfan. At hyn, cyn i'r achos ddechrau, cyhoeddwyd argraffiadau 'Morien' o elfennau mwyaf personol yr achos. 'Morien' oedd Edward Morien Morgan o Drefforest, hanesydd lleol, hynafieithydd, ac un o newyddiadurwyr mwyaf profiadol y *Western Mail*. Roedd newyddiadurwr blaenllaw arall, Beriah Gwynfe Evans, hefyd yn gweithio yng Nghaerdydd ar y pryd - i'r *Cardiff Times*, 'gelyn' *y Western Mail* fel mae'n digwydd, a gellid fod wedi disgwyl efallai ryw ddiddordeb ganddo yntau felly yn yr achos. Ond roedd Evans yn aelod yng Nghapel Minny Street. Heb amheuaeth, roedd yn gwybod yn iawn am deimladau cryf rhai o'i gyd-aelodau yn y mater ac am yr hollt yn aelodaeth y capel ond i ryw raddau roedd ei ddwylo megis wedi'u clymu - roedd e'n ddiacon ym Minny Street ac ar delerau da ag Alun Roberts, brawd Garmon. Diau iddo farnu mai'r peth callaf fyddai cadw'n dawel. Felly, dim ond adroddiadau hollol ffeithiol a ' niwtral' o'r achos llys a ymddangosodd yn y *Cardiff Times*.

Ond nid oes amheuaeth nad o blaid Jane Gittins – a oedd yno yn Llundain yng nghwmni ei thad – oedd adroddiadau 'Morien' yn y *Western Mail*. Cyferbynnai ei hunigrwydd yn y llys - 'a young girl – childlike still in appearance, having on her lap a most lively looking baby' - â ffurfioldeb y llys a'r rhesi o fargyfreithwyr yn eu gynau a wigiau. Roedd disgrifiad Morien o'r tad fel pe bai wedi'i godi o un o nofelau'r cyfnod – ei ddwylo a'i gorff yn dangos arwyddion amlwg o oes o lafur caled a'i ddillad fel pe baent wedi perthyn i'w dad o'i flaen ef. At hyn, roedd Morien wedi trafferthu ymweld â theulu Jane Gittins yn eu cartref ym Maldwyn 'a humble yet clean home in a hamlet in the Trefaldwyn mountains' a sylwodd fod y Beibl Cymraeg a Llyfr Emynau y Methodistiaid Calfinaidd ymhlith y llyfrau oedd yn eu bwthyn bach diaddurn.

Aredig yr un tir â'r achos gerbron yr ynadon yng Nghaer-dydd, saith mis ynghynt, wnai'r gwrandawiad yn Llundain ond bod y cyfan yn fwy ffurfiol a sylwadau'r barnwr rhywfaint yn fwy treiddgar. Roedd cyfieithydd yn bresennol a galwyd arno o



dro i dro i ymarfer ei grefft pan fyddai Jane Gittins ac Eliza Hughes yn rhoi tystiolaeth. Bu raid iddo gyfaddef fod ei gyfieithu, ar o leiaf un achlysur, yn garbwl ac yn anfoddhaol. Tynnodd y barnwr sylw'r llys at broblemau'r cyfieithu ac at anghysondebau amlwg yn natganiadau rhai o'r tystion. Cyfeirid ar hyd yr adeg at 'Mr Garmon Roberts' ond at Mary Jane Gittins fel 'this girl Gittins'. Anodd osgoi'r casgliad nad oedd'na elfennau cryf o annibendod a rhagfarn yn perthyn i'r cyfan a bod achos Jane Gittins wedi dioddef o'r herwydd.

Cafwyd dynion o bwys i dystio i gymeriad dilychwin Garmon Roberts ac i ochri gydag ef – ei frawd y Parchedig Alun Roberts, (Ebenezer), a oedd, erbyn hynny, yn bur wael ei iechyd, Y Parchedig Owen Roberts (Minny Street) a gwraig Owen Roberts, Mrs Annie Roberts. Y diwedd oedd i'r llys farnu fod y *Western Mail* yn ei ddull o gyflwyno adroddiadau o'r achos yn ogystal ag yn ei adroddiadau cyn yr achos o flaen yr ynadon, yn euog o enllib yn erbyn Garmon Roberts ac o liwio barn y cyhoedd. Dyfarnwyd i Garmon Roberts iawndal o £2000 - llai na hanner y swm o £5000 a hawliwyd gan ei gyfreithwyr, ond er hynny, yn swm reit barchus ac yn cyfateb i gyflog gweinidog am ryw ddeuddeng mlynedd bryd hynny.

Ymddiswyddodd Garmon Roberts ei hunan o ofalaeth Hannah Street yng Nghorffennaf 1888 gan honni fod ei enw da wedi dioddef a bod pobl Caerdydd wedi troi yn ei erbyn. A chwap ar ôl hynny gadawodd Caerdydd. Roedd ei chwaer hefyd wedi dychwelyd i'r Gogledd tua'r un adeg, gan ildio ei haelodaeth ym Minny Street a symud yn ôl i Goedpoeth. Erbyn hynny, roedd Garmon Roberts wedi dychwelyd i'w gartref ym Merriw. Gyda'i fod yn cyrraedd yno cyflwynwyd iddo ail wŷs tadogaeth gan ei fod bellach yn byw yn ei sir ei hunan; tebyg mai cyfeillion Jane Gittins oedd wedi dwyn perswâd arni i wneud hyn. Gohiriwyd yr ail achos hwn ddwywaith ac wedyn daeth gerbron ynadon y Drenewydd yn Chwefror 1889. Erbyn hyn roedd y mater wedi llusgo ymlaen am flwyddyn. Diau fod Jane Gittins wedi blino ar yr holl fusnes; ac at hyn roedd ganddi

broblem - sut i ddod o hyd i arian i dalu bargyfreithiwr. O ganlyniad, ni ddaeth Jane Gittins ei hunan i'r llys ar y diwrnod penodedig ac ymddengys mai dyna oedd diwedd y mater.

Dychwelodd Jane Gittins i'w theulu ym Maldwyn ac am a wyddys dyna oedd diwedd ei chysylltiad â Garmon Roberts a'i deulu. Ymddengys na chafodd Garmon Roberts unrhyw anhawster i ailgydio yn ei waith gweinidogaethol yn y Gogledd. Yn ôl *Baner ac Amserau Cymru* (Medi 25 1889) 'Derbyniwyd i Gyfarfod Chwarterol Annibynwyr Dinbych a Fflint ar Fedi 16 y Parch E. Garmon Roberts oddi wrth gyfundeb Seisneg Maldwyn, yr hwn sydd wedi ymsefydlu yn weinidog ar yr eglwys Seisnig yn Adwy'r Clawdd ... a phregethodd yno hefyd.' Ar 29 Tachwedd 1889 ganwyd merch i Garmon Roberts a Harriet ei wraig, a'i bedyddio yn 'Bronwen Elizabeth' yng Nghapel Salem, Coedpoeth ar Ionawr 3ydd 1890. Roedd helynt Mary Jane Gittins yn cyflym ddiflannu dros y gorwel.

Ddiwedd Medi 1888 gadawodd y Parchedig Alun Roberts (brawd Garmon Roberts), Caerdydd hefyd ac aeth i Awstralia am flwyddyn er mwyn adfer ei iechyd. Cytunwyd gan ei gyfeillion mai Beriah Gwynfe Evans (yn aelod ym Minny Street ond un a fu'n annisgwyl o dawel ei farn yn ystod helynt Jane Gittins) oedd i baratoi 'anerchiad' o werthfawrogiad i'w gyflwyno i Alun Roberts ar ei ymadawiad. Ond ofer, o safbwynt ei iechyd, oedd y cyfnod yn Awstralia ac ar ôl blwyddyn yn unig yno dychwelodd i Gymru. Aeth i fyw at ei frawd yn Nhywyn lle bu farw yn Rhagfyr 1889 yn 40 oed.

Ymadawodd y Parchedig Owen Roberts ac Annie ei wraig, â Chaerdydd ddiwedd Awst 1891 a symud i Bwllheli ac wedyn, ymhen ychydig flynyddoedd, i Lerpwl. Yn 1893 cyhoeddodd Owen Roberts *Yr Oriel Annibynol* – portreadau o un ar bymtheg o bregethwyr Annibynnol ynghyd â phregeth gan bob un ohonynt – ond nid oedd Garmon Roberts ymhlith yr un ar bymtheg. Erbyn hynny roedd gan Owen Roberts a'i wraig forwyn newydd – Elizabeth Jones, merch 19 oed o Sir Benfro;



roedd Eliza Hughes wedi eu gadael a symud i Lerpwl. Yn gymeriad cryf, daeth Hughes yn flaenllaw ymhlith Annibyniaeth Cymru a'i ethol yn Gadeirydd (Llywydd) yr Undeb yn 1922. Bu farw yn 1924.

Diarddelwyd Mr William Evans, y teiliwr o Flora Street (yr aelod o Minny Street a oedd wedi beiddio beirniadu ei weinidog, y Parchedig Owen Roberts, yn y *Western Mail*) ond dyw'r nodyn sydd yn rhestr aelodau Minny Street ddim yn dweud pryd yn union y digwyddodd hynny mwy na'r rheswm amdano; tybed ai 'cosb' am ei weithred yn cefnogi Jane Gittins oedd?

Erbyn Cyfrifiad 1891 roedd pobl ddiarth yn byw yn y ddau dŷ yn Crwys Road, yr enw 'Garmon House/Villa' wedi'i ddisodli gan '127 Crwys Road', a'r tri gweinidog eu hunain, yn ogystal â'r forwyn ifanc a oedd wedi achosi cymaint o drafferth iddynt, i gyd wedi gadael Caerdydd .

..........................................................................